
Cymorth a chydweithio rhwng ysgolion

Mehefin 2015



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.

Cyflwyniad	1
Cefndir	1
Prif ganfyddiadau	5
Argymhellion	7
Mathau o gymorth a chydweithio rhwng ysgolion	8
1.1 Cydweithio a grëwyd gan ysgolion	8
1.2 Cymorth wedi'i frocera	13
2 Cydweithio ffurfiol	15
3 Ffedereiddio	17
Effaith	19
Ffactorau llwyddiant	22
Atalfeydd a rhwystrau	23
Cymorth cof i ategu cynllunio ac arfarnu cydweithio rhwng ysgolion	24
Sail y dystiolaeth	26
Geirfa/cyfeiriadau	28
Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg	28

Cyflwyniad

Caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn ar gyfer 2015-2015.

Mae'r adroddiad yn rhoi enghreifftiau o gymorth rhwng ysgolion, gan gynnwys trefniadau anffurfiol a grëwyd gan ysgolion, neu drefniadau wedi'u brocera, cydweithio a ffederasiynau. Ar gyfer pob enghraifft, ceir astudiaeth achos yn dangos arfer bresennol. Mae'r adroddiad yn ystyried yr hyn sy'n gweithio, sut a pham y mae'n gweithio, a'r dulliau cymorth sy'n ei gynnal. Hefyd, mae'n trafod yr effaith, ffactorau llwyddiant a rhwystrau sy'n wynebu'r mentrau hyn rhwng ysgolion.

Mae'r adroddiad wedi ei seilio ar ymweliadau â naw o ddarparwyr i drafod eu gwaith rhwng ysgolion. Mae hefyd wedi ei seilio ar ddadansoddiad o ymatebion i holiadur arolwg gan 22 o ysgolion uwchradd. Mae'r sampl o ysgolion a ddewiswyd i gymryd rhan yn yr holiadur arolwg yn cynrychioli sampl gyffredinol gynrychioliadol o'r ysgolion uwchradd yng Nghymru. Cafwyd tystiolaeth ychwanegol o arfarniad o ddeilliannau arolygiadau er 2010 (gweler y sail dystiolaeth ar dudalen 25 am ragor o fanylion).

Hwn yw'r adroddiad cyntaf o ddau ar waith rhwng ysgolion. Bydd yr ail adroddiad yn crynhoi ac yn cyfodod y canfyddiadau o'r adroddiad hwn, yr arfarniad o flwyddyn gyntaf menter Her Ysgolion Cymru, ac arfarniad y prosiect Ymarferwyr Arweiniol a Datblygol gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA).

Mae'r adroddiad wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, uwch arweinwyr mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Cefndir

Mae'r adroddiad wedi ei osod yng nghyd-destun ehangach polisïau addysg Llywodraeth Cymru sy'n annog gweithio rhwng ysgolion, gan gynnwys y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol a 'Cymwys am Oes'.

- Lansiodd y **Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol** gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2014. Mewn arweiniad, amlinellodd Llywodraeth Cymru ddisgwyliad i bob ysgol ddilyn cylch blynyddol o gynllunio gwella ysgol. Hefyd, rhoddodd system genedlaethol ar gyfer categoraiddio ysgolion ar waith. Yn ganolog i'w chynlluniau yw y dylai consortia rhanbarthol herio a brocera cymorth sy'n briodol i anghenion ysgol. Dywed yr arweiniad:

Dylid annog a galluogi ysgolion sydd â'r gallu i wneud hynny i arwain ar eu gwelliannau eu hunain a defnyddio eu hadnoddau eu hunain, felly. Yng nghyswllt yr ysgolion hynny sydd mewn perygl o beri pryder neu sy'n peri pryder, cyfrifoldeb y consortia fyddai helpu i gydweddu a brocera'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol yn unol â'r gefnogaeth sydd ar gael. (Llywodraeth Cymru, 2014b, t.3).

- **Cynnwys am Oes** – cynllun addysg i rai 3 i 19 oed yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Hydref 2014. Mae'r cynllun yn cynnwys yr amcan strategol bod arweinwyr addysg ar bob lefel yn cydweithio â'i gilydd mewn system hunanwella, gan gynorthwyo a herio ei gilydd er mwyn codi safonau ym mhob ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys dau ymrwymiad yn ymwneud â gweithio rhwng ysgolion (sichrau bod yr egwyddor o gymorth rhwng ysgolion yn sail i dulliau Llywodraeth Cymru a chonsortia o wella ysgolion, a gweithio gyda'r Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol a chonsortia i annog gwaith rhwng ysgolion), (Llywodraeth Cymru, 2014c)

Mae sawl ffurf o drefniadau ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer gweithio rhwng ysgolion ar gael yng Nghymru:

- Gwaith anffurfiol rhwng ysgolion - gan gynnwys trefniadau a grëwyd gan ysgolion a threfniadau wedi'u brocera
- Cydweithio ffurfiol (dan Gydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir Cymru 2010), lle gall cyrff llywodraethu ysgolion ffurfio cydbwyllgorau i gyflawni eu swyddogaethau
- Ffedereiddio ysgolion, lle mae rhwng dwy a chwe ysgol yn ffedereiddio dan un corff llywodraethol i sbarduno gwella ysgol. Er 2010, mae rheoliadau wedi caniatáu i gyrff llywodraethol ysgolion ddewis ffedereiddio. Ym Mai 2014, galluogodd Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) i awdurdodau lleol ffedereiddio ysgolion¹

Lluniwyd sawl menter neu brosiect yng Nghymru i annog cymorth a chydweithio rhwng ysgolion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Prosiect **Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol**, a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn Nhachwedd 2013. Mae'r prosiect ynparu ysgol gynradd neu ysgol uwchradd sy'n perfformio'n gryf (yr Ysgol sy'n Ymarferydd Arweiniol) ag ysgol sy'n perfformio'n wannach sydd eisoes wedi dechrau ar ei thaith i wella (yr Ysgol sy'n Ymarferydd Datblygol). Y bwriad yw y bydd datblygu a rhannu arfer orau a gwybodaeth o fudd i'r ysgol arweiniol a'r ysgol ddatblygol.
- Mae **Her Ysgolion Cymru**, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2014, yn becyn o gymorth sydd â'r bwriad o wella perfformiad 40 o ysgolion uwchradd sydd mewn amgylchiadau heriol ac sy'n cael eu herio o ran cyflenwi. Mae'r ysgolion hyn, y nodwyd eu bod yn tanberfformio fel y mesurwyd gan fandiau ac ysgol o ffactorau yn gysylltiedig â difreintedd, yn cael pecyn o gymorth sydd wedi ei deilwra'n unigol i fodloni anghenion ac amgylchiadau'r ysgol, (Llywodraeth Cymru, 2014a).

Hefyd, mae **teuluoedd** o ysgolion yn helpu ysgolion i weithio ar y cyd. Crëwyd teuluoedd yn 2010 trwy grwpio ysgolion yn ôl p'un a yw'r iaith a ddefnyddir yn yr

¹ Mae'r rheoliadau'n caniatáu ar gyfer llawer o wahanol fathau o ffederasiwn. Mae'r rhain yn cynnwys clystyrau o ysgolion cynradd; ysgolion trawsgyfnod – uwchradd a chynradd neu fabanod ac iau; ysgolion sy'n tanberfformio ac ysgolion cryfach; grwpiau o ysgolion bach a/neu wledig; ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg; ac ysgolion mewn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol.

ysgol yn Gymraeg neu'n Saesneg yn bennaf, maint yr ysgol (ar gyfer teuluoedd ysgolion cynradd) a'u sgôr ar 'fynegai her'². Diwygiwyd y teuluoedd yn 2013. Disgwylir i ysgolion osod targedau uchelgeisiol ar gyfer gwella'r ysgol ar sail eu perfformiad yn erbyn perfformiad aelodau eraill o'r teulu ysgolion ac ysgolion tebyg eraill. Mae disgwyl i deuluoedd geisio cyngor a rhannu arfer dda gan aelodau eraill y teulu.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ystyried y prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol na menter Her Ysgolion Cymru, oherwydd bod y rhain yn cael eu harfarnu trwy ddulliau eraill, ond mae'n edrych ar fathau eraill o gymorth a chydweithio rhwng ysgolion. Nododd canfyddiadau arfarniad canol ffordd o'r prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol gan SCYA (2014) ffactorau llwyddiant a rhwystrau oedd yn debyg i'r canfyddiadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)

Yn Ionawr 2014, arfarnodd adroddiad gan OECD, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, agweddau ar y system addysg yng Nghymru a gwnaeth nifer o argymhellion. Ymhlith y rhain, roedd argymhelliad i:

datblygu a gweithredu strategaeth yng Nghymru ar gyfer cydweithio rhwng ysgolion, gan greu saernïaeth sy'n annog ysgolion i ddewis partneriaid priodol, mewn awyrgylch o dryloywder, ymwybyddiaeth a chymorth. (OECD, 2014, t.8.)

Yn yr adroddiad, dywedodd OECD fod cydweithio rhwng ysgolion yn 'un o'r opsiynau mwyaf effeithiol ar gyfer datblygu cyfalaf proffesiynol, yn enwedig cyfalaf cymdeithasol ymhlith athrawon ac arweinwyr'. (t. 77). Hefyd, dywedodd:

Mae cydweithio rhwng ysgolion yn darparu modd o gylchredeg gwybodaeth o strategaethau o gwmpas y system; mae'n darparu ffordd amgen o gynorthwyo ysgolion sy'n cael trafferth i arfer ymyrraeth o'r brig i lawr; ac mae'n datblygu cyfrifoldeb cyfunol ymhlith pob ysgol dros lwyddiant myfyrwyr. (t.77.)

Nododd yr adroddiad ddwy gyfres o heriau i Lywodraeth Cymru o ran datblygu cydweithio mwy effeithiol rhwng ysgolion; mae'n disgrifio'r rhain yn 'heriau gweithredu a dylunio' (t.77). Mae OECD yn rhybuddio y bu llawer o'r cydweithio presennol rhwng ysgolion o ganlyniad i argyfwng, er mwyn osgoi cau neu pan fydd ysgol yn cael canlyniad arolygu gwael. Nid yw'r cydweithio wedi digwydd i fodloni anghenion dysgwyr a darparu gwelliannau sy'n berthnasol ac o fudd i lawer o ddisgyblion. Dywed OECD bod hyn yn 'bwysig oherwydd nid yw'r holl fyfyrwyr sy'n

² Caiff y mynegai hwn ei ddeillio gan ddefnyddio'r ffactorau cyd-destunol canlynol: canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim; canran y disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd sy'n cael eu dosbarthu yn ôl yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru; canran y disgyblion sy'n cael cymorth gweithredu gan yr ysgol a mwy neu ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig; a chyfran y disgyblion o oed ysgol statudol sydd naill ai'n newydd i'r Saesneg neu'r Gymraeg, lle bo hynny'n berthnasol, ar gyfnod caffael cynnar neu'n datblygu cymhwysedd.

wynebu anfantais neu'n tanberfformio mewn ysgolion lle mae'r mwyafrif o'u cyfoedion yn perfformio'n wael' (t.77). Mae ymchwil ar fodolau llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r byd yn awgrymu:

y gall y rhan fwyaf o ysgolion roi cymorth i rai myfyrwyr mewn rhai meysydd, neu y byddant yn elwa ar y cymorth hwnnw, ond ni all model sy'n canolbwyntio ar lefelau cyffredinol o berfformiad gwael gynorthwyo'r grwpiau ehangach hyn o ysgolion (t.77).

Yn ogystal, daw i'r casgliad mai megis dechrau cael eu datblygu y mae dulliau presennol i gynorthwyo gwaith rhwng ysgolion³, nad oes ganddynt ddigon o adnoddau, maent o'r brig i lawr yn bennaf, ac nid oes ganddynt ffocws. Mae OECD yn dadlau y dengys ymchwil nad yw'r amodau hyn yn ddelfrydol ar gyfer sefydlu cydweithio ffyniannus rhwng ysgolion.

³ Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol a phrosiectau 'Her' lleol sydd wedi eu seilio ar Her Llundain a Manceinion

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae bron pob ysgol⁴ yn rhan o ryw fath o weithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ceir gwaith cydweithredol ag ysgolion eraill mewn clwstwr cynradd/uwchradd. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r holl waith ychwanegol rhwng ysgolion o ganlyniad i frocera (gan yr awdurdod lleol, consortia neu Lywodraeth Cymru). Mae gan tua hanner yr ysgolion drefniadau gweithio eraill rhwng ysgolion a grëwyd gan yr ysgolion eu hunain.
- 2 Mae trefniadau gweithio llwyddiannus rhwng ysgolion yn mynnu ymrwymiad dilys arweinwyr ysgolion ac agweddau yn gysylltiedig ag agoredrwydd, ymddiriedaeth a thryloywder. Hefyd, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n cydweithio â'i gilydd wedi nodi amcanion strategol clir a meini prawf llwyddiant manwl ar gyfer y cyfryw gydweithio. Yn fwyaf hanfodol, rhaid i'r ffocws fod ar yr effaith i ddisgyblion.
- 3 Dim ond lleiafrif o ysgolion sydd â chymorth rhwng ysgolion a grëwyd gan yr ysgolion hynny a all nodi ei effaith ar safonau. Yn gyffredinol, mae hyn oherwydd nad ydynt yn gosod meini prawf llwyddiant clir nac yn arfarnu effaith y gwaith.
- 4 Er mwyn i gymorth rhwng ysgolion fod yn llwyddiannus, rhaid i arweinwyr ysgolion ymrwymo i fuddsoddi amser sylweddol staff ar gyfer ymchwil, datblygu a chydweithio.
- 5 Mae cymorth rhwng ysgolion yn gweithio orau:
 - pan mae'n deillio o nodi angen yn glir, bod iddo sail resymegol glir a'i fod wedi ei seilio ar amcan strategol
 - pan mae'r ffocws ar wella deilliannau i ddisgyblion
 - pan mae'n fuddiol i bob un o'r cyfranogwyr
 - pan mae'r ysgolion ar gamau tebyg ar eu taith wella oherwydd, os oes un ohonynt yn dda neu'n dda iawn a'r llall yn wan, mae'n llai tebygol y bydd y cymorth yn effeithiol oherwydd bod gormod o fwelch rhwng yr ysgolion
 - pan mae'r berthynas rhwng ysgolion yn gyfartal, ymddiriedus, yn agored ac yn dryloyw
- 6 Mae'r rhwystrau a nodwyd rhag cydweithio effeithiol rhwng ysgolion yn cynnwys:
 - diffyg ymrwymiad gan arweinwyr yr ysgolion
 - diffyg buddiannau ar y cyd
 - diffyg ymddiriedaeth a gonestrwydd
 - cred nad oes gan eraill unrhyw beth defnyddiol i'w gynnig
- 7 Mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r gweithgarwch wedi'i frocera rhwng ysgolion (ar wahân i gydweithio 14-19) yn ddiweddar ac mae'n rhy gynnar i weld ei effaith ar safonau.

⁴ Y niferoedd a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yw'r rhai a ddefnyddir gan Estyn ym mhob un o'i adroddiadau. Ceir manylion yn yr Eirfa.

- 8 Yn ymarferol, roedd bron pob un o'r trefniadau ffedereiddio presennol yn deillio o angen i arbed arian neu achub ysgolion rhag cael eu cau.
- 9 Mae'r rhan fwyaf o'r trefniadau ffedereiddio yn gymharol newydd. Mae tystiolaeth bod deilliannau i ddisgyblion yn ymwneud â lles, fel presenoldeb ac ymddygiad, yn gwella o ganlyniad i ffedereiddio. Mae'n rhy gynnar i arfarnu eu heffaith ar safonau yn llawn.
- 10 Mae ysgolion wedi'u ffedereiddio yn ceisio gwella profiadau dysgu disgyblion trwy gynllunio cynlluniau gwaith ar y cyd mewn cyfarfodydd rheolaidd o'r staff o'r ysgolion wedi'u ffedereiddio. Mae gweithgareddau allgyrsiol ar y cyd yn cyfrannu'n dda at les disgyblion. Mae athrawon yn datblygu ystod ehangach o fedrau addysgu o ganlyniad i gydweithio â'i gilydd a rhannu gweithgareddau datblygiad proffesiynol.
- 11 Bu manteision ariannol ym mron pob un o'r ffederasiynau. Mae'r rhain yn deillio o:
 - rannu a chyfuno staff ac arbenigedd
 - cyflawni dull cyson, er enghraifft i arfer asesu, datblygu medrau a rheoli ymddygiad
 - gallu taro bargaen well ar gyfer gwasanaethau ac adnoddau
 - rhesymoli'r strwythur staffio (er enghraifft cael un pennaeth adran yn hytrach na dau)
- 12 Caiff ysgolion wedi'u ffedereiddio eu cofrestru'n ysgolion unigol, sy'n golygu, at ddibenion archwilio ac arolygu, cânt eu trin ar wahân. Mae'r ymdrech ddyblyg hon yn gwastraffu amser ac adnoddau.

Argymhellion

Dylai arweinwyr ysgolion:

- A1 fod yn glir iawn ynghylch yr hyn y maent am ei gyflawni trwy gymryd rhan mewn gweithgarwch cymorth rhwng ysgolion
- A2 nodi meini prawf llwyddiant penodol ar gyfer y gweithgarwch
- A3 sicrhau bod y ffocws ar godi safonau a gwella deilliannau
- A4 arfarnu'r effaith, costau a buddion

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia:

- A5 fod â strategaeth glir ar gyfer paru ysgolion i gydweithio â'i gilydd
- A6 gosod disgwyliadau ynghylch sut bydd grwpiau'n gweithredu
- A7 sicrhau bod adnoddau ar gael i ategu gwaith rhwng ysgolion
- A8 nodi a lledaenu gwybodaeth am arfer sy'n haeddu cael ei hefelychu

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A9 ystyried ffyrdd i alluogi ffederasiynau i gofrestru'n ysgol unigol
- A10 cydlynu cronfa ddata genedlaethol o arfer sy'n haeddu cael ei hefelychu sy'n dod ag astudiaethau achos arfer orau Estyn, a'r rhai a nodir gan gonsortia ac awdurdodau lleol, at ei gilydd

Mathau o gymorth a chydweithio rhwng ysgolion

- 13 Mae bron pob ysgol yn cymryd rhan mewn rhyw fath o weithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill (trwy gydweithio mewn clwstwr neu mewn rhwydweithiau 14-19). Mae gan tua hanner yr ysgolion waith arall rhwng ysgolion sy'n cael ei greu gan yr ysgolion. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r holl waith ychwanegol rhwng ysgolion o ganlyniad i weithgarwch wedi'i frocera (gan yr awdurdod lleol, consortiwm neu Lywodraeth Cymru). Nid yw ychydig iawn o ysgolion yn cydweithio ag ysgolion heblaw eu hysgolion cynradd partner, ac mae'r gwaith hwn yn ymwneud â phontio bugeiliol yn bennaf.
- 14 At ddibenion yr adroddiad hwn, caiff cymorth rhwng ysgolion ei ddiffinio fel dwy neu fwy o ysgolion yn cydweithio â'i gilydd ar sail angen a nodwyd yn glir, sail resymegol glir a'r amcan strategol i wella deilliannau i ddisgyblion. Mae'n ddefnyddiol dosbarthu'r gwahanol fathau o gydweithio sy'n bodloni'r diffiniad hwn fel a ganlyn:
- 1 Gwaith anffurfiol rhwng ysgolion, gan gynnwys:
 - 1.1 Cydweithio wedi ei greu gan yr ysgolion eu hunain, lle mae ysgolion yn dewis cydweithio â'i gilydd
 - 1.2 Cymorth wedi'i frocera, lle mae corff allanol, er enghraifft yr awdurdod lleol neu gonsortiwm, yn trefnu i ysgolion gydweithio â'i gilydd
 - 2 Cydweithio ffurfiol – sy'n aml yn cael eu galw'n ffederasiynau 'meddal', lle mae ysgolion yn rhannu staff (gan gynnwys pennaeth), adnoddau ac arbenigedd, ond mae ganddynt gyrrff llywodraethol ar wahân ac maent yn sefydlu cydbwyllgor i gyflawni rhai o'u swyddogaethau
 - 3 Ffederasiynau (ffederasiynau 'caled' neu ffurfiol), lle mae gan ysgolion un corff llywodraethol

1.1 Cydweithio a grëwyd gan ysgolion

- 15 Mae ffocws gweithgareddau cymorth rhwng ysgolion a grëwyd gan yr ysgolion eu hunain yn amrywio. Yn gyffredinol, mae'r mathau o weithgareddau yn deillio o hunanarfarniad yr ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella, neu maent yn gysylltiedig ag argymhellion arolygiad. Yn ymarferol, y ffocysau mwyaf cyffredin yw:
- defnyddio data, olrhain a monitro
 - datblygu medrau, yn benodol datblygu darpariaeth rifedd
 - cymorth ar gyfer pynciau penodol
 - gwella hunanarfarnu a sicrhau ansawdd
 - gwella addysgu ac asesu
- 16 Mae agweddau eraill yn cynnwys:
- datblygu'r cwricwlwm
 - medrau arweinyddiaeth ganol
 - lles disgyblion
 - cymorth i ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol

- 17 Ymwelodd arolygwyr â dwy enghraifft o waith rhwng ysgolion a grëwyd gan yr ysgolion eu hunain. Un ohonynt yw grŵp o ysgolion arbennig a gydweithiodd i fynd i'r afael ag angen penodol ar y cyd. Mae'r llall wedi ei seilio o gwmpas ysgol uwchradd sydd â thraddodiad maith o gydweithio ag ysgolion eraill. Mae'r ddwy enghraifft wedi datblygu dros gyfnod o bum mlynedd, o leiaf. Yn y ddwy ohonynt, bu awydd ac ymrwymiad yr arweinwyr i gydweithio ag ysgolion eraill yn ffactor ysgogol hanfodol. Yn y ddwy enghraifft, y brif nod oedd gwella deilliannau i ddisgyblion.
- 18 Mae gan ysgolion arbennig yng Nghymru draddodiad maith o weithio ar y cyd. O ystyried eu gwasgariad daearyddol eang, eu natur arbenigol a'r ffaith eu bod yn fach o ran eu nifer, maent wedi teimlo mwy o angen i gynorthwyo ei gilydd. Yn gyffredinol, nid yw llawer o'r adnoddau, cyngor ac arweiniad sydd ar gael i ysgolion prif ffrwd ar addysgu, y cwricwlwm a materion asesu yn hawdd eu cymhwyso i'w hamgylchiadau arbennig. Mae llawer o'r arbenigedd yn ymwneud ag arfer yn y sector yn yr ysgolion eu hunain. O ganlyniad, mae arweinwyr a staff yr ysgolion yn agored iawn i weithio ar y cyd. Isod, ceir enghraifft o gydweithio rhwng ysgolion arbennig yn ne Cymru.

Astudiaeth achos: Ysgol Ddydd Arbennig Crownbridge a'i phartneriaid Ysgol Arbennig Portfield, Ysgol Arbennig Green Fields, Ysgol Arbennig Heronsbridge, Ysgol Arbennig Henfelin ac Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn

Cyd-destun

Mae Ysgol Crownbridge yn darparu ar gyfer 95 o ddisgyblion rhwng tair a 19 oed yng Nghroesyceiliog. Mae ychydig dros ddau draean o'r disgyblion o oed ysgol statudol. Mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys Torfaen, Casnewydd a Sir Fynwy. Mae gan yr holl ddisgyblion ddatganiad o anghenion ysgol arbennig ar gyfer ystod o anghenion sylweddol, cymhleth a lluosog, neu maent yn cael asesiad statudol.

Mae pob un o'r disgyblion o gefndir Saesneg yn bennaf. Mae tri o'r disgyblion 'dan ofal' yr awdurdod lleol, ac mae naw o ddisgyblion eraill yn cael darpariaeth seibiant achlysurol. Mae 39.7% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 45.3% ar gyfer ysgolion arbennig.

Mae cyfwerth â 12.8 o athrawon amser llawn a 58 o staff cymorth. Nid oes gan y pennaeth na'r dirprwy bennaeth ymrwymiad addysgu. Mae 10 o ddosbarthiadau yn yr ysgol ac mae dau ohonynt ar safle ysgol gynradd leol. Bu newidiadau sylweddol i'r staff yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, ac mae saith o athrawon newydd wedi ymuno â'r ysgol.

Nodi materion

Roedd y pennaeth yn fwyfwy ymwybodol nad oedd gan ysgolion arbennig yng Nghymru yr offer i asesu, olrhain a monitro disgyblion yn effeithiol. Wrth gasglu data cenedlaethol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol, mae'n ofynnol i ysgolion arbennig adrodd gan ddefnyddio D (datgymhwyswyd), W (gweithio tuag at) neu ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen/lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol. Roedd angen cydnabod cyrhaeddiad islaw deilliant 1 a lefel 1 er mwyn mesur camau bach o gynnydd. Hefyd, ni all ysgolion arbennig fanteisio ar yr un ystod o wybodaeth a data cymharol sydd gan ysgolion prif ffrwd. O ganlyniad, mae'n anodd eu cymharu nhw

a'u disgyblion ag ysgolion tebyg ag ysgolion tebyg neu blant mewn ysgolion arbennig eraill, hyd yn oed pan fydd ganddynt anghenion ychwanegol tebyg.

Camau gweithredu

Yn 2008-2009, sefydlodd y pennaeth, ynghyd â chydweithwyr eraill sy'n benaethiaid a dirprwy benaethiaid, grŵp anffurfiol o bum ysgol arbennig ledled de Cymru. Roedd y penaeithiaid yn ymwybodol nad oedd ysgolion arbennig yn cael yr un cymorth i osod targedau, asesu, cymedroli ac olrhain â'u cydweithwyr prif ffrwd. Roedd gan y grŵp angen ar y cyd i ddatblygu fframwaith asesu cyffredin mewn lleoliadau ysgolion arbennig; a chodi safonau mewn cynnydd disgyblion trwy sefydlu a chynnal rhwydwaith cymedroli asesiadau athrawon i ysgolion arbennig. Ymunodd chweched ysgol yn fuan wedi hynny.

Roedd pob un o'r chwe ysgol arbennig yn mynd i'r afael ag anhawster tebyg: sut i safonau barnau athrawon yng Nghymru islaw deilliant 1 yn y Cyfnod Sylfaen a lefel 1 y cwricwlwm cenedlaethol; ac, er 2013, lefelau Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd y dosbarth derbyn. Edrychodd y grŵp ar sut i sicrhau barnau trylwyr, meincnodi cyrhaeddiad disgyblion â disgyblion tebyg a mesur cynnydd. Roedd angen newid o gasglu data i ddadansoddi data.

Yn wreiddiol, roedd y chwe ysgol yn defnyddio cymysgedd o offer i gynorthwyo asesiadau athrawon islaw deilliant 1 a lefel 1. Roedd iaith a dealltwriaeth gyffredin gytûn yn hanfodol. Lluniodd y grŵp siart cyfnewid data a oedd yn eu galluogi i gymedroli dysgu ar draws eu hysgolion, p'un a oeddent yn defnyddio lefel cyn y cwricwlwm cenedlaethol o Loegr – lefelau 'P', deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu lwybrau dysgu. Daeth y grŵp yn grŵp cymedroli. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd a chafwyd ffocws penodol ym mhob un.

Wrth i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd gael ei ddatblygu, canolbwyntiodd y grŵp ar asesu llythrennedd a rhifedd. Ni ddyrannwyd partneriaid y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) i ysgolion arbennig, felly fe wnaethant gais am gyllid partneriaeth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd gan Ymddiriedaeth Addysgol CfBT⁵. Eu nod oedd meithrin gallu a datblygu rhwydwaith cymedroli ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar draws lleoliadau ysgolion arbennig. Bu hyn yn llwyddiannus ac mae wedi arwain at 30 o ysgolion yn cymryd rhan mewn rhwydwaith cymedroli, yn ogystal â digwyddiadau hyfforddiant pwrpasol trwy bartneriaethau'r RhGG yn ystod 2013-2014 a 2014-2015.

Deilliannau

Caiff effaith gwaith partneriaeth ei monitro a'i harfarnu trwy gerrig milltir misol y Rhaglen Gymorth Genedlaethol ac arfarniadau o ddigwyddiadau. Mae'r RhGG yn mesur cynnydd gan ddefnyddio 'graddfa CAG' ar raddfa o goch (yn golygu bod yr angen mwyaf am ddatblygiad a chymorth) i wyrdd (yn golygu bod cynnydd yn dda). Symudodd y graddfeydd ar gyfer Crownbridge o goch i wyrdd dros gyfnod o ddwy flynedd. Hefyd, canfu arfarniad lefelau uchel o hyder ymhlith staff yn eu hasesiad o fedrau disgyblion.

⁵ A oedd yn dwyn yr enw Canolfan Athrawon Prydain, a sefydlwyd ym 1968

Nododd adroddiad arolygu Ysgol Ddydd Arbennig Crownbridge, a gyhoeddwyd yn 2014, 'caiff gwybodaeth am fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ei defnyddio'n hynod effeithiol i gynllunio a monitro ymyriadau penodol ar gyfer pob disgybl (Estyn, 2014, t.2).

Barnodd Estyn (2014):

mae'r ysgol yn cydweithio'n dda iawn ag ysgolion arbennig eraill. Er enghraifft, mae wedi datblygu proses cymedroli arloesol ar y cyd ar gyfer barnu cywirdeb asesiadau athrawon ar gyfer pob disgybl o ran y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae'r gwaith hwn yn datblygu'n system unigryw o gymedroli cenedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd, a meincnodi dilynol mewn ysgolion arbennig. Mae'r dull hwn, sy'n cael ei rannu ag ysgolion partner, yn arwain y sector (t.11).

Manteision eraill a nodwyd gan y grŵp:

- Rhwydweithio grwpiau staff eraill, er enghraifft cynorthwywyr addysgu o ysgolion gwahanol yn cydweithio â'i gilydd i greu blychau synhwyraidd
- Cyfleoedd datblygu arweinyddiaeth
- Y gallu i osod targedau ac olrhain yn effeithiol, sydd wedi ategu Rheoli Perfformiad yn yr ysgolion
- Datblygiad proffesiynol helaeth ar y cyd, oherwydd bod staff yn ymweld ag ysgolion eraill i rannu arfer dda a rhagorol – yn aml, maent yn dra arbenigol oherwydd natur y disgyblion
- Gwaith trawsgonsortia effeithiol, sy'n esblygu o hyd, oherwydd lefelau uchel yr ymrwymiad a'r cyllid sydd wedi galluogi llawer mwy o waith i gael ei wneud

- 19 Mae'r ail enghraifft yn enghraifft o neges allweddol o adroddiad thematig Estyn (2013a) ar 'Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd'. Un o nodweddion allweddol ysgolion da neu ragorol yw bod llawer o'r staff yn ymgymryd ag ymholi a myfyrio sy'n canolbwyntio ar weithgareddau cydweithredol i wella addysgu a dysgu. Caiff yr holl staff gyfle i gymryd rhan a chaiff deilliannau eu lledaenu'n eang mewn cymunedau ysgolion a thrwy rwydweithio ag athrawon mewn ysgolion eraill.

Astudiaeth achos: Ysgol Gymunedol Cwmtawe yn darparu cymorth i ysgolion eraill

Cyd-destun

Mae Ysgol Gymunedol Cwmtawe yn ysgol gyfun i ddisgyblion 11-16 oed yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae 16.6% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.5%. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o Bontardawe a'r ardal gyfagos, ac mae tua 30% o'r disgyblion yn dewis mynychu'r ysgol o'r tu allan i'r dalgylch arferol. Mae gan yr ysgol ddau fath o ddarpariaeth addysgu arbenigol ar y safle, sef un ar gyfer dysgwyr dyslecsig a'r llall yn arbenigo mewn anhwylderau ar y sbectrwm awtistig. Mae ganddi draddodiad maith o gymorth rhwng ysgolion.

Strategaeth

Trwy barhau â dull a sefydlwyd gan y pennaeth blaenorol, mae'r tîm arweinyddiaeth yn credu mai'r allwedd i wella ysgol yw datblygu medrau arweinyddiaeth ymhlith yr holl staff a cheisio arfer dda. Wrth geisio cymorth a rhannu cymorth, maent yn mynnu y dylai'r sail resymegol fod â thair egwyddor greiddiol, sef:

- ffocws clir ar godi safonau a gwella'r ysgol
- yr awydd a'r penderfynoldeb i wneud i bethau ddigwydd
- ymrwymiad i ddysgu

Camau gweithredu

Mae Cwmtawe wedi cydweithio â nifer o ysgolion ar ystod eang o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys: cydweithio ag ysgolion cynradd lleol i ddatblygu dulliau ar y cyd i ddatblygu llythrennedd a rhifedd; gwaith ag ysgol uwchradd sydd â'r nod o wella datblygu'r Gymraeg yng Nghwmtawe; cynorthwyo ysgolion sy'n ceisio gwella olrhain a gosod targedau i ddisgyblion; rhannu eu dull o fentora cymheiriaid; a sut maent yn hyfforddi ac yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Deilliannau

Mae perfformiad yn yr ysgol yn gyson uchel. O'i osod yn erbyn y rhan fwyaf o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol yn ei rhoi'n gyson yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim am y tair blynedd diwethaf.

Yn ei harolygiad diwethaf yn 2012, canmolwyd yr ysgol am ei diwylliant sefydledig o ddatblygiad proffesiynol sy'n galluogi staff i ddatblygu eu harbenigedd a rhannu arfer effeithiol y tu mewn i'r ysgol a'r tu hwnt iddi. Mae hyn yn cael effaith gref ar feithrin gallu'r ysgol i wella'n barhaus.

Gwahoddwyd yr ysgol i gyflwyno astudiaeth achos ar ei strategaethau asesu ac, yn benodol, ei systemau ac arfer data ac olrhain (Estyn 2013b). Mae'r ysgol wedi cael ymweliadau gan nifer o ysgolion sydd â diddordeb mewn gwybod mwy. O ganlyniad, datblygwyd ychydig o bartneriaethau buddiol iawn. Y ffactorau sydd wedi galluogi'r cysylltiadau llwyddiannus hyn yw cymorth ac ymrwymiad gan arweinwyr yn yr ysgolion hyn a dealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen ei wella. Mae ysgolion sydd wedi cydweithio ag Ysgol Cwmtawe, yn cynnwys Ysgol Gyfun Pencoed ac Ysgol Gyfun Bryntirion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gwelodd y ddwy ysgol welliant yn neilliannau cyfnod allweddol 4 wedi iddynt gyflwyno systemau tebyg.

Dywed arweinwyr yn Ysgol Cwmtawe bod y ffactorau hanfodol wedi eu galluogi i ddarparu cymorth defnyddiol i eraill, gan gynnwys ymrwymiad gan arweinwyr yr ysgol sy'n ceisio cymorth a gwybodaeth am yr hyn yr hoffent ei ddysgu gan Ysgol Cwmtawe a pham. Mae hyn yn eu galluogi i nodi'r staff mwyaf priodol i'w hanfon ar ymweliadau ac yn eu galluogi i baratoi i fuddsoddi amser digonol i elwa ar gymorth. Mae'r arweinwyr yn Ysgol Cwmtawe yn ymrwymo'n gadarn i gydweithio ag eraill, oherwydd eu bod yn ystyried bod hyn yn bwysig ar gyfer datblygiad proffesiynol ac yn hanfodol ar gyfer gwella'r ysgol. Fodd bynnag, maent yn poeni am y pwysau y mae hyn yn ei roi ar eu hamser a'u hadnoddau.

- 20 Mae'r ddwy enghraifft uchod yn amlygu pwysigrwydd ymrwymiad, gonestrwydd, ymddiriedaeth a ffocws di-ildio arweinwyr ar wella deilliannau i ddisgyblion. Hefyd, mae'r ddwy ohonynt yn pwysleisio'r angen am gyllid sy'n galluogi ysgolion i ymrwymo digon o amser a defnyddio staff yn briodol i ddatblygu arfer.

1.2 Cymorth wedi'i frocera

- 21 Mae gweithgareddau cymorth wedi'i frocera yn dueddol o ganolbwyntio'n fwy penodol ar flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- ehangu'r dewis i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac ôl-16
 - cau'r bwlch sy'n deillio o ddifreintedd
 - gwella llythrennedd a rhifedd
- 22 Fodd bynnag, mae ganddynt ffocysau eraill hefyd sy'n deillio'n gyffredinol o ddiffygion a nodwyd gan weithgarwch awdurdod lleol neu gonsortiw m a thrwy arolygu. Mae'r ffocysau hyn yn dueddol o gael eu mynegi'n fwy amwys ac yn cynnwys:
- gwella deilliannau yng nghyfnod allweddol 4
 - rhannu arfer 'dda'
- 23 Mae'r consortia rhanbarthol yn sefydlu trefniadau ar gyfer y math hwn o gymorth rhwng ysgolion. Mae'n rhy gynnar i asesu effaith y cyfryw drefniadau. Fodd bynnag, ymwelodd arolygwyr â grŵp o ysgolion cynradd ar Ynys Môn a sefydlwyd gan gonsortiw m rhanbarthol GwE yn Ebrill 2013 ac a ddechreuodd weithio ym Medi 2013. Nododd arolygwyr fod y prif fanteision yn deillio o rannu a chyfuno arbenigedd. Caiff hyn ei ystyried yn gryfder mewn unrhyw gymorth cydweithredol rhwng ysgolion.
- 24 Y prif rwystr a nodwyd oedd yr amharodrwydd gwreiddiol i fuddsoddi amser staff mewn gwaith cydweithredol. Mae angen i arweinwyr ysgolion ymrwymo i gefnogi cymorth rhwng ysgolion a mynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â phwysau ar amser staff, yn enwedig os oes angen rhyddhau staff o ymrwymadau addysgu.

Astudiaeth achos: Teuluoedd 'cynradd' Ynys Môn

Cyd-destun

Yn dilyn yr arolygiad o wasanaethau addysg Ynys Môn yn 2012, heriodd y Bwrdd Adfer benaethiaid i ysgwyddo cyfrifoldeb dros yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion eraill yn yr awdurdod yn ogystal â'u hysgolion eu hunain. Ysgogiad arall oedd diwedd y cymorth a oedd yn cael ei ddarparu gan Cynnal ar y pryd, a ddisodlwyd gan gonsortiw m rhanbarthol GwE.

Strategaeth

I baratoi i roi'r strategaeth ar waith, ymwelodd staff gwella ysgolion â Manceinion i edrych ar effaith 'Manchester Challenge', ac mae rhai o'r egwyddorion wedi eu seilio ar y gwaith hwnnw.

Sefydlwyd system i alluogi cydweithrediad a chaiff prosiectau amrywiol eu cynorthwyo oddi mewn i'r system hon. Mae'n system o 'deuluoedd' yn cynnwys pob ysgol gynradd yn yr awdurdod lleol, a cheir saith teulu i gyd, yn amrywio o ran eu maint o chwech i wyth o ysgolion mewn teulu. Nid oes unrhyw ysgol arweiniol mewn teulu, ond maent yn gweithredu ar sail yr egwyddor bod gan bob ysgol gryfderau ac y gall arwain ar faes sydd o fudd i ysgol arall neu ysgolion eraill. Pwysleisir bod holl aelodau'r teulu yn gyfartal a bod y system yn caniatáu hyblygrwydd. Roedd ychydig o ysgolion yn teimlo nad oedd ganddynt unrhyw beth i'w gyfrannu, ond erbyn hyn, maent yn dechrau cyfrannu ac yn deall egwyddor cydweithio.

Mae teuluoedd yn nodi meysydd i gydweithio arnynt trwy eu cynlluniau gwella ysgol.

Camau gweithredu

- Ar lefel penaethiaid, roedd y gwaith yn canolbwyntio ar faterion rheolaethol i ddechrau, fel defnyddio a dehongli data, gan ddefnyddio data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer⁶ yn effeithiol, cymharu cynlluniau gwella ac adroddiadau hunanarfarnu, a mentora penaethiaid newydd.
- Caiff cyfarfodydd eu cynnal yn fisol rhwng penaethiaid ym mhob teulu. Mae pob pennaeth wedi ymweld â phob ysgol arall yn y teulu.
- Ar lefel athrawon, mae diwrnodau datblygiad proffesiynol wedi cynnwys cyfleoedd i rannu arfer dda, craffu ar lyfrau ar y cyd, paratoi ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, casglu a chofnodi tystiolaeth, mapio ac ymateb i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a datblygu gwaith cartref.
- Ar lefel penaethiaid cynorthwyol, cynhaliwyd sesiynau i hyrwyddo llythrennedd a rhifedd.
- Mae cydweithredu yn parhau y tu hwnt i ddiwrnodau datblygiad proffesiynol a chaiff staff eu rhyddhau i gydweithio ag ysgolion yn y teulu i ddatblygu'r prosiectau hyn ymhellach. Mae hyn wedi ymestyn ar draws teuluoedd eraill, nid oes unrhyw derfyn, ac mae wedi arwain at ethos o gydweithio.
- Mae'r cydweithio'n dibynnu'n llwyr ar anghenion ysgolion – mae'r ysgolion yn cytuno ar y cyfeiriad.
- Mae gweithgarwch un teulu ar agor i weddill y teuluoedd yn yr awdurdod, ac mae enghreifftiau o gydweithio rhwng teuluoedd ac ar sail ryngsirol.
- Bu pwyslais cynnar ar agweddau rheolaeth, ond erbyn hyn mae ffocws ar agweddau ar addysgu a dysgu yn dechrau dylanwadu ar safonau disgyblion.

Deilliannau

Mae pob ysgol yn cytuno bod y system yn parhau i ddatblygu a, hyd yn hyn, mae'r prif welliannau i'w gweld yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae enghreifftiau pendant o ddeilliannau uniongyrchol gwell i ddisgyblion.

Mae'r canlynol yn manylu ar rai gweithgareddau a'u deilliannau:

- Cytunodd yr ysgolion ar ddull cyson ar gyfer fformat adroddiadau blynyddol i rieni

⁶ Mae Ymddiriedolaeth Teulu Fischer yn sefydliad di-elw sy'n darparu data a dadansoddiadau i bob ysgol ac ALI yng Nghymru a Lloegr.

a llawlyfrau ysgolion.

- Mae cydweithio ar adroddiadau hunanarfarnu, cynlluniau gwella a dehongli data wedi arwain at welliannau mesuradwy. Mae cysondeb yn y prosesau hunanarfarnu a gallu ysgolion i nodi eu cryfderau a'u gwendidau.
- Gwellodd ansawdd gwaith cartref mewn un ysgol (Kingsland) o ganlyniad i weithgaredd 'diwrnod rhannu' ymhlith teuluoedd. Mae o leiaf un ysgol arall yn y teulu wedi mabwysiadu'r dull hwn hefyd.
- Mae dulliau amrywiol o gofnodi gweithgareddau ym meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Dangosodd nifer o ysgolion y ffyrdd gwahanol yr oeddent yn cofnodi – wedi hynny, datblygodd un ysgol (Esceifiog) syniad a'i symud ymlaen ymhellach i fapio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a'r Fframwaith Medrau. Rhannwyd hyn ag ysgolion yn y teulu.
- Mae'r rhy gynnar i fesur yr effaith lawn, ond mae'r enghreifftiau uchod, ynghyd â chanfyddiadau cynnar yn ymwneud â chynnydd mewn llythrennedd a rhifedd, yn galonogol.

2 Cydweithio ffurfiol neu ffederasiwn 'meddal'

- 25 Ymwelwyd â thair enghraifft o gydweithio ffurfiol neu ysgolion ffederasiwn 'meddal'. Maent yn rhannu nifer o nodweddion cyffredin. Sefydlwyd pob un ohonynt fel ymateb pragmatig gan y llywodraethwyr neu'r awdurdod lleol, naill ai oherwydd i'r pennaeth adael neu oherwydd bod pryderon ynghylch niferoedd yn gostwng neu'r posibilrwydd o gau. Ni nodwyd yr awydd i wella deilliannau i ddisgyblion fel y prif ffactor. Mae gan ysgolion ffederasiwn meddal gyrrff llywodraethol a chyllidebau dirprwyedig ar wahân. Penodir un pennaeth ar y cyd gan y cyrrff llywodraethol.
- 26 At ei gilydd, mae deilliannau i ddisgyblion wedi gwella ym mhob enghraifft. Mae'n anodd arfarnu effaith trefniadau ffedereiddio ar ddeilliannau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 oherwydd natur y carfanau, sydd yn aml â nifer fach iawn o ddisgyblion. Fodd bynnag, mae craffu ar waith disgyblion yn dangos bod y rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da o leiaf, yn enwedig o ran datblygu llythrennedd a rhifedd.
- 27 Ym mhob enghraifft, bu manteision sylweddol o ran darpariaeth. Trwy gydweithio â'i gilydd, mae'r ysgolion wedi gwella'r profiadau dysgu sydd ar gael i ddisgyblion. Caiff cynlluniau gwaith eu cynllunio ar y cyd yn effeithiol ar sail cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer staff yr ysgolion wedi'u ffedereiddio. Mae gweithgareddau allgyrsiol ar y cyd yn cyfrannu'n dda at les disgyblion. Mae athrawon wedi datblygu ystod ehangach o fedrau addysgu o ganlyniad i gydweithio â'i gilydd a rhannu gweithgareddau datblygiad proffesiynol. Mae athrawon yn cyfarfod â'i gilydd, yn cynllunio â'i gilydd ac yn rhannu adnoddau.

Astudiaeth achos: Datblygiad proffesiynol staff yn Ysgol Tregarth ac Ysgol Bodfeurig yng Ngwynedd

Cyd-destun

Ar ôl i'r cyn bennaeth ymddeol, penodwyd y pennaeth presennol gan y ddau gorff llywodraethol yn bennaeth Ysgol Tregarth ac Ysgol Bodfeurig. Er Medi 2013, mae wedi gosod cyfeiriad strategol cadarn ar gyfer y ddwy ysgol.

Strategaeth

Gweledigaeth y pennaeth oedd dod â dwy ysgol a chymuned ynghyd, gan sicrhau bod y ddwy ysgol yn cadw eu hunaniaeth ac yn cael eu hystyried yr un mor bwysig â'i gilydd. Roedd safonau disgyblion a llwyddiant y ddwy ysgol o'r pwys mwyaf. Ar yr un pryd, roedd awydd i barchu ac amddiffyn gwahaniaethau a chymeriadau unigryw y ddwy ysgol.

Sefydlodd y pennaeth parau a thimau staff i gydweithio â'i gilydd ar feysydd i'w gwella â blaenoriaeth a chynorthwyo anghenion proffesiynol unigolion ac adrannau yn y ddwy ysgol.

Roedd y camau gweithredu'n cynnwys:

- cynllunio ar y cyd
- rhannu arfer dda
- dadansoddi data, craffu ar lyfrau, rhoi prosesau monitro cadarn ar waith, a gweithredu'n unol â chanfyddiadau a datblygu rolau athrawon ar yr un pryd

Deilliannau

Mae hyfforddiant a datblygiad staff mewn llythrennedd a rhifedd wedi gwella darpariaeth a safonau yn y ddwy ysgol. Mae cydweithio â'i gilydd wedi arwain at safonau gwell mewn ysgrifennu. Mae craffu ar lyfrau disgyblion yn dangos cynnydd yn safon gwaith disgyblion yn y deilliannau yn y ddau gyfnod allweddol yn y ddwy ysgol. Mae canlyniadau a pherfformiad yn y profion cenedlaethol yn galonogol iawn ac yn rhoi perfformiad y ddwy ysgol yn y chwarteli uwch.

Mae adborth rhieni yn galonogol iawn ynghylch y newidiadau sydd wedi digwydd yn y ddwy ysgol ers iddynt dynhau cydweithredu, ac mae sylwadau rhieni mewn nosweithiau agored a thrafodaethau am safonau yn gadarnhaol iawn.

Mae ffocws penodol ar asesu ar gyfer dysgu yn cael effaith ar safonau – mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu hymwreiddio'n gadarn ar draws y ddwy ysgol ac mae tystiolaeth gadarn iawn o'i effaith i'w gweld yng ngwaith disgyblion. Mae cydweithio â'i gilydd i arfarnu asesu ar gyfer dysgu yn ymarferol yn llyfrau eu cymheiriaid, a rhannu syniadau ac arfer dda, wedi darparu datblygiad proffesiynol effeithiol i athrawon yn y ddwy ysgol. Erbyn hyn, mae athrawon yn fwy atebol am safonau ac mae llyfrau disgyblion yn dystiolaeth gadarn iawn o effaith asesu ar gyfer dysgu. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i aelodau'r timau arweinyddiaeth yn y ddwy ysgol graffu ar lyfrau ac arwain ar hyn. Mae hyn yn rhoi trosolwg clir o'r safonau yn y ddwy ysgol, ac yn nodi meysydd i'w datblygu. Mae ethos o waith tîm effeithiol yn bodoli rhwng athrawon yn y ddwy ysgol oherwydd eu bod yn rhannu adnoddau, cynllunio ar y cyd ac yn cynorthwyo ei gilydd.

Yr allwedd i lwyddiant y ffederasiwn 'meddal' hwn yw agwedd ac ymrwymiad staff yn y ddwy ysgol. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gydweithio a chynorthwyo ei gilydd a'r pennaeth er lles plant yn y ddwy ysgol, ac i godi safonau. Arolygwyd Ysgol Tregarth yn Nhachwedd 2013, ac adroddodd arolygwyr fod athrawon yn arwain ac yn cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd lleol (gan gynnwys Ysgol Bodfeurig) i rannu

profiadau o ran datblygu staff a chynorthwyr. Caiff amrywiaeth o syniadau a dulliau cyflwyno eu rhannu mewn pynciau fel rhifedd a llythrennedd, ac mae hyn wedi cael effaith gref ar godi safonau disgyblion.

3 Ffederasiwn ffurfiol neu 'galed'

- 28 Ymwelwyd â dwy enghraifft o'r rhain. Mae un ohonynt yn ffederasiwn o ddwy ysgol uwchradd a'r llall yn ffederasiwn o glwstwr o ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd sy'n gysylltiedig â'r clwstwr. Datblygodd y ddau ohonynt o ganlyniad i'r angen i resymoli darpariaeth a sicrhau cynaliadwyedd. Yn y ddwy enghraifft, chwaraeodd yr awdurdod lleol ran sylweddol. Mae'r ymgyrch i ad-drefnu ysgolion a lleihau nifer y lleoedd gwag wedi arwain at gynigion i gau ac uno ysgolion. Yn yr enghreifftiau hyn, cynigiwyd ffedereiddio gan yr awdurdodau lleol fel dewis arall yn hytrach na chau.
- 29 Mae'r ddwy enghraifft yn nodi manteision sy'n debyg i'r rhai ar gyfer cydweithio ffurfiol/ffederasiwn 'meddal'. Mae'r rhain yn cynnwys:
- rhannu a chyfuno staff ac arbenigedd
 - cyflawni dull cyson, er enghraifft ar gyfer arfer asesu a datblygu medrau a rheoli ymddygiad
 - arbedion yn deillio o allu taro bargaen well ar gyfer gwasanaethau ac adnoddau oherwydd bod yr archebion yn fwy (er enghraifft contractau ar gyfer caledwedd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu)
- 30 Yn y ddwy enghraifft, mae presenoldeb wedi gwella ers ffedereiddio. Mae hyn o ganlyniad i gyfuno adnoddau ac arbenigedd a thynhau polisi ac arfer. Hefyd, mae'r ffederasiwn rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gweld gwelliannau mewn perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 o ganlyniad i bennu dull cyson o ddatblygu medrau. Mae'n rhy gynnar i asesu'r effaith ar safonau erbyn diwedd cyfnod allweddol 4 yn y naill enghraifft a'r llall.
- 31 Yn yr enghreifftiau hyn, nodwyd bod cyllidebau a grantiau yn rhwystr. Mae'r ysgolion wedi'u ffedereiddio, ond mae ganddynt niferoedd disgyblion unigol o hyd ac, at ddibenion cyllid a dyrannu grantiau, cânt eu trin yn ddarparwyr ar wahân. Mae'r ddau ffederasiwn yn defnyddio dull strategol ac yn cyfuno eu hadnoddau er mwyn cyflawni eu blaenoriaethau, ond at ddibenion archwilio ac atebolrwydd, rhaid iddynt adrodd ar wahân. Mae hyn yn gwastraffu amser ac yn creu beichiau biwrocraidd.
- 32 Hefyd, nododd y ddau ffederasiwn bod arolygu yn peri pryder. Mae gan bob ysgol mewn ffederasiwn nifer disgyblion unigol o hyd, ac mae gan Estyn rwymedigaeth gyfreithiol i arolygu pob ysgol a gynhelir. Mae'r ffederasiwn cynradd/uwchradd yn cynnwys pum ysgol. Felly, yn gyfreithiol, bydd Estyn yn cynnal pum arolygiad ar wahân o'r un ddarpariaeth dan yr un arweinyddiaeth, mewn gwirionedd. Mae'r gofyniad i arolygu pob un ohonynt yn creu baich ar gyfer uwch arweinwyr yn benodol, ac mae'n gyfystyr â gwastraffu arian cyhoeddus.
- 33 Roedd y ddwy enghraifft o'r farn bod manteision ffedereiddio i ddisgyblion yn gorbwyso'r diffygion a ddaw yn sgil y fiwrocraiaeth sy'n cael ei chreu gan gyllidebau ar wahân a'r disgwyliad o fwy nag un arolygiad. Siaradodd y penaethiaid am eu

balchder mewn cadw cymeriad rhannau gwahanol y ffederasiwn. Fodd bynnag, roeddent yn dadlau y byddai cael eu hystyried yn un darparwr at ddibenion atebolrwydd yn ddefnyddiol iawn.

Astudiaeth achos: Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf

Cyd-destun

Trafodwyd ffedereiddio yn 2010 yn wreiddiol. Cymhellant economaidd oedd yn bennaf: roedd angen i'r awdurdod lleol sicrhau cynaliadwyedd ysgolion yn yr ardal weddol anghysbell hon. Roedd yr ysgolion ar wahân yn gweithredu â thro 50% o leoedd gwag ac yn gorfod rheoli cyllidebau gostyngol. Roedd pryderon hefyd ynghylch safonau yn yr ysgolion, ac roedd amrywiant sylweddol mewn deilliannau. Cynigiwyd ffedereiddio gan yr awdurdod lleol fel ffordd o fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Mae'r ffederasiwn wedi tyfu'n organig ers hynny, wrth i benaethiaid ymddeol neu symud i ysgolion newydd. Dechreuodd y ffederasiwn ym Medi 2010 trwy ffedereiddio'r ysgol uwchradd ac un ysgol gynradd dan un pennaeth. Dilynodd ysgol gynradd arall ym Medi 2012, un arall yn Ionawr 2013 a'r olaf ym Medi 2013. Sefydlwyd cydbwyllgor llywio dros dro ym Medi 2012 i arwain y broses ymgynghori ar gyfer ffedereiddio'r pum ysgol yn ffurfiol dan un pennaeth ac un corff llywodraethol. Ym Medi 2013, ffedereiddiwyd y pum ysgol yn ffurfiol.

Strategaeth

Mae'r pum ysgol yn rhannu tîm arweinyddiaeth â chyfrifoldebau wedi'u ffedereiddio. Mae hyn yn sicrhau dulliau mwy cyson. Ceir polisiau rhanedig ar draws yr ysgolion a chwricwlwm cyson ar draws y cyfnod cynradd. Mae gan hyn oblygiadau cadarnhaol ar gyfer safoni a chymedroli. Ceir un polisi monitro hefyd ynghyd ag un Cynllun Gwella Ffederasiwn ar sail prif adroddiad hunanarfarnu ac adroddiad hunanarfarnu eilaidd. Er bod pob ysgol yn cael un gyllideb, mae dull strategol i'r modd y caiff ei gwario ar draws yr ysgolion. Defnyddir y dull hwn â'r grant amddifadedd disgyblion a'r grant effeithiolrwydd ysgolion hefyd, yn ogystal â llifoedd cyllid grant eraill. Mae un rheolwr busnes a swyddogaethau gweinyddu ac ystafell gefn ar y cyd. Caiff dulliau cynorthwyo a chynnwys disgyblion eu rhannu ar draws pob cyfnod hefyd.

Camau gweithredu

Mae'r rhain yn cynnwys:

- creu un strwythur arweinyddiaeth
- mabwysiadu polisiau cyson wedi'u ffedereiddio
- creu un calendr monitro ac arfer, gan gynnwys olrhain
- mabwysiadu arferion asesu cyson
- dull cyson o gynhwysiant ar draws pob ysgol
- sefydlu un cwricwlwm ar gyfer yr ysgolion cynradd
- datblygu cwricwlwm cyfnod allweddol 3 ar gyfer y cyfnod uwchradd sy'n adeiladu ar gwricwlwm yr ysgolion cynradd ac sydd wedi'i alinio â'r fframwaith llythrennedd a rhifedd
- gweithgor trawsgyfnod sy'n canolbwyntio ar rifedd
- rhaglenni anogaeth ar draws pob cyfnod allweddol

- academiâu chwaraeon, gwasanaethau carolau clwstwr, teithiau a gweithgareddau ymgysylltu, a diwrnodau ffocws ar y cyd
- rhannu arfer orau ar draws ysgolion – cynllunio, marcio, defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, cymedroli, digwyddiadau elusennol, un diwrnod mabolgampau, timau wedi'u ffedereiddio
- swyddog lles addysg, cydlynedd anghenion dysgu ychwanegol, cwnsler a thechnegwyr cymorth TG ar y cyd

Deilliannau

- Mae cyfraddau presenoldeb yn y cyfnod cynradd wedi cynyddu dau bwynt canran i 94.6% ers ffedereiddio'n ffurfiol – mae pob un o'r ysgolion yn cyflawni ei phresenoldeb gorau erioed.
- Mae'r ysgol uwchradd wedi gwella presenoldeb o 88.6% yn 2011 i 91.0% yn 2014. Mae canran yr absenoldebau parhaus wedi disgyn o 36.5% yn 2011 i 27.8% yn 2014.
- Mae gwaharddiadau wedi gostwng o golli 303 diwrnod y flwyddyn cyn ffedereiddio (2010) i golli 28 diwrnod yn 2014. Mae hwn yn welliant sylweddol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r dangosyddion perfformiad allweddol yng nghyfnod allweddol 3, a llawer o'r rhai yng nghyfnod allweddol 4, yn uwch ers cyn ffedereiddio, yn gyffredinol. Mae'r deilliannau i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, bechgyn a merched uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y grwpiau hyn o ddisgyblion yn ei theulu o ysgolion tebyg.
- Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r dangosydd pwnc craidd wedi gwella 24 pwynt canran er 2010, Saesneg wedi gwella 21 pwynt canran, mathemateg 13 pwynt canran a gwyddoniaeth 34 pwynt canran.
- Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r dangosydd pwnc craidd wedi gwella 11 pwynt canran.
- Mae ailstrwythuro wedi galluogi mwy o gyfleoedd datblygu staff ac arweinyddiaeth. Mae dau o'r pedwar dysgwr arweiniol cynradd yn benodiadau mewnol.
- Er Mawrth 2014, mae'r ffederasiwn wedi darparu cymorth i ysgolion eraill mewn meysydd fel olrhain disgyblion, y Cyfnod Sylfaen a defnyddio offeryn asesu, cofnodi ac adrodd electronig.
- Rhannwyd model ffedereiddio Cwm Afan Uchaf ag awdurdodau eraill, er enghraifft Gwynedd.

Effaith

- 34 Yn rhy aml, ni all y mwyafrif o ysgolion nodi p'un a yw'r rhan fwyaf o weithgareddau rhwng ysgolion wedi cael effaith ar safonau neu sut. Yr eithriadau yw pan y gallant ddarparu tystiolaeth o effaith trefniadau cydweithredol i ehangu dewis neu nodi gwelliant mewn medrau yn deillio o waith partneriaeth rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Ym mron pob achos, mae ysgolion yn betrusgar i nodi'r effaith ar safonau. Mae hyn yn rhannol oherwydd y maent yn credu na allant ddangos cysylltiad uniongyrchol rhwng achos ac effaith, a hefyd oherwydd bod gwelliant mewn safonau o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau, fel arfer.

- 35 Fodd bynnag, gall y rhan fwyaf o ysgolion sy'n darparu ac yn ceisio cymorth nodi rhai effeithiau cadarnhaol. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chyfoethogi'r cwricwlwm, gwelliannau mewn darpariaeth a datblygu staff. Caiff datblygu medrau arweinyddiaeth ei nodi'n effaith gadarnhaol gan ysgolion y cysylltir â nhw'n rheolaidd i ddarparu cymorth. Mewn ysgolion llwyddiannus, mae arweinwyr yn creu ethos cydweithredol lle ceir parodrwydd i ddysgu gan eraill ac i rannu'n fewnol a chydag ysgolion eraill. Bu hyn yn strategaeth bwysig yn yr ymgyrch i gynnal neu wella safonau⁷.
- 36 Mewn tua hanner yr ysgolion, mae'r gweithgarwch rhwng ysgolion wedi'i frocera (heblaw am gydweithio 14-19) yn ddiweddar ac mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar safonau. Fodd bynnag, adroddodd yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol fod tystiolaeth gynnar o ddisgyblion yn gwneud mwy o gynnydd mewn gwersi o ganlyniad i newidiadau i arfer yn yr ystafell ddosbarth.
- 37 Dim ond ychydig o ysgolion sydd wedi nodi targedau ac amcanion clir a thrachywir iawn ar gyfer eu gwaith rhwng ysgolion. Dim ond ychydig iawn ohonynt sy'n cynnal arfarniad gofalus o effaith eu gweithgarwch cymorth rhwng ysgolion. Caiff hyn ei gadarnhau gan ganfyddiadau arolygu. Y llynedd, canfuom fod gan y mwyafrif o ysgolion gysylltiadau da ag ysgolion a sefydliadau eraill sy'n cyfoethogi profiadau a deilliannau i ddisgyblion. Fodd bynnag, canfuom hefyd fod hunanarfarnu yn ddigonol yn unig mewn tua hanner yr ysgolion. Y diffyg sylweddol mwyaf cyffredin yw, wrth arfarnu eu gwaith, nid oes gan ysgolion ffocws digonol na meini prawf llwyddiant clir yn ymwneud â'r effaith ar safonau na lles.
- 38 Un dull diddorol ac effeithiol mewn ychydig iawn o ysgolion yw mynnu bod eu staff eu hunain, a staff ysgolion eraill sy'n ceisio cymorth, yn cyflwyno cynnig manwl. Mae'r rhain yn ei gwneud yn glir iawn pam y mae angen cymorth, beth yw'r deilliannau arfaethedig a pha gymorth sydd ei angen. Caiff hyn ei ddilyn gan ofyniad i adolygu effaith.

⁷ Gweler adroddiad thematig Estyn (2013a) 'Teithiau Gwella Deuddeg Ysgol Uwchradd' am ragor o fanylion ac astudiaethau achos

Astudiaeth achos: Gwella cynllunio, asesu a myfyrio ar effaith gwaith rhwng ysgolion yn Ysgol Uwchradd Elfed, Sir y Fflint

Cyd-destun

Mae Ysgol Uwchradd Elfed yn ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 18 oed, sy'n gwasanaethu tref Bwcle. Mae tuag 16% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae cyfanswm o 24.4% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol, sydd fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 22.6%. Mae gan 2.5% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn yn gyffredinol unol â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.7%. Mae gan yr ysgol draddodiad sefydledig o geisio a darparu cymorth.

Strategaeth

Roedd y pennaeth yn ymrwymedig i sicrhau bod gweithgareddau rhwng ysgolion yn effeithio ar arfer broffesiynol a deilliannau i ddisgyblion, ac mae'r ymrwymiad hwnnw'n parhau. I ddechrau, roedd am wella cynllunio ei staff ei hun os oeddent yn chwilio am arfer a oedd yn haeddu cael ei hefelychu. Hefyd, roedd am sicrhau pan roedd ysgolion eraill yn cysylltu â'r ysgol, bod eu hanghenion yn glir er mwyn i Ysgol Elfed ddarparu cymorth priodol iddynt. Roedd hefyd yn bwriadu manteisio i'r eithaf ar amser ac adnoddau trwy benderfynu yn ystod y cyfnod cynllunio un union faint o amser y byddai ei angen er mwyn lleihau unrhyw amharu posibl ar wersi neu waith beunyddiol yr ysgol.

Camau gweithredu

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r ysgol wedi gweithio ar y cyd â nifer o ysgolion neu wedi darparu cymorth iddynt. Bu ffocws penodol ar rannu arfer mewn datblygu llythrennedd a rhifedd. Hefyd, mae wedi darparu cymorth ar ddatblygu medrau arweinyddiaeth ac ysgogi disgyblion. Caiff hyn ei gofnodi'n ofalus. Er mwyn arfarnu effaith yn fwy gofalus ym Medi 2014, cyflwynodd yr ysgol ddogfen gynllunio. Roedd y ddogfen hon yn mynnu, cyn unrhyw ymweliad, y dylid:

- nodi'r ffocws ar gyfer y cymorth
- rhoi disgrifiad o'r angen neu'r mater
- nodi amcan strategol y gwaith

Ar ôl y gwaith, caiff disgrifiad o'r cymorth a roddwyd ei ychwanegu, ac, wedi hynny, cynhelir arfarniad o'r effaith.

Deilliannau

Nododd y tîm arolygu a ymwelodd ag Ysgol Elfed ym Mawrth 2015 fod diwylliant cryf o fyfyrion a chydweithio wrth rannu arfer orau mewn addysgu, asesu a medrau o ganlyniad i'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol sy'n cael eu cynnig. Yn y ddwy flynedd diwethaf, bu perfformiad uchel iawn yn gyson, yn enwedig yn erbyn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg. Hefyd, mae bechgyn a merched, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud yn well

na'r grwpiau hyn o ddisgyblion yn y teulu ac yng Nghymru. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni uwchlaw'r disgwyliadau.

Hefyd, nododd yr arolygiad:

- Bod arweinyddiaeth fedrus ar bob lefel wedi arwain at berfformiad rhagorol yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfer cymwysterau sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg
- Bod arweinwyr yn cynllunio'n llwyddiannus iawn i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol
- Bod diwylliant cryf iawn o atebolrwydd ar bob lefel
- Bod gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio gwella cadarn yr ysgol wedi eu hintegreiddio'n effeithiol ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol

Un rhwystr cyffredin rhag gwaith effeithiol rhwng ysgolion a nodwyd gan lawer o ysgolion y cysylltir â nhw'n rheolaidd i rannu eu harfer yw dealltwriaeth wael gan y rhai sy'n ymweld â nhw o'r hyn y mae angen ei wella. Mae hyn yn golygu nad yw ysgolion sy'n ceisio cymorth yn elwa'n gyson ar y cymorth a ddarperir gan ysgolion eraill. Mae cyflwyno cynllunio gwaith rhwng ysgolion yn ffurfiol yn Ysgol Uwchradd Elfed wedi annog ysgolion i ystyried yn ofalus iawn beth maent am ei gyflawni trwy'r cymorth ac, o ganlyniad, bu ffocws gwell i weithgareddau. Trwy ei wneud yn ofyniad i ysgolion sy'n cysylltu â nhw am gymorth fod yn glir ynghylch eu hanghenion, mae Ysgol Uwchradd Elfed yn helpu cydweithwyr i ddatblygu ffocws a strwythur clir yn eu cyfleoedd dysgu proffesiynol.

Ffactorau llwyddiant

- 39 Mae bron pob ysgol o'r farn mai agoredrwydd, gonestrwydd ac ymrwymiad gan arweinwyr ac athrawon yw'r ffactorau pwysicaf sydd eu hangen ar gyfer cymorth llwyddiannus rhwng ysgolion. Hefyd, nododd ychydig o ysgolion yr angen i rannu nodau cyffredin, agwedd gadarnhaol a ffocws di-ildio ar wella safonau.
- 40 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gryfderau ac arfer sy'n werth eu rhannu. Mae llawer o ysgolion yn cael trafferth nodi lle mae arfer a all eu helpu i fynd i'r afael â diffygion penodol. Mae llawer ohonynt yn hyderus y gall yr awdurdod lleol eu cyfeirio at gymorth priodol yn yr ardal leol, ond mae'r mwyafrif ohonynt yn poeni efallai nad hwn yw'r cymorth mwyaf defnyddiol. Mae lleiafrif ohonynt wedi meithrin cysylltiadau oddi mewn i'w teulu o ysgolion tebyg, ond ychydig iawn ohonynt sydd wedi gwneud defnydd cyson a pharhaus o'r ffynhonnell hon o gymorth posibl. Mae llawer ohonynt yn edrych ar ardal arfer orau Estyn ar ein gwefan, ond nid ydynt yn gallu elwa arni bob tro. Mae sawl rheswm posibl dros hyn:
- Efallai bod ysgol yr astudiaeth achos yn rhy bell i ffwrdd
 - Nid oes digon o fanylion yn yr astudiaeth achos
 - Nid yw'r astudiaethau achos sydd ar gael yn disgrifio arfer yn y meysydd o ddiddordeb

- 41 Caiff y rhan fwyaf o gymorth rhwng ysgolion a grëwyd gan yr ysgolion eu hunain ei ddechrau o ganlyniad i rwydweithio anffurfiol. Mae penaethiaid yn holi penaethiaid eraill. Mae arweinwyr pwnc yn cyfarfod ag arweinwyr pwnc eraill ar gyrsiau hyfforddiant. Mewn sawl ffordd, mae hyn yn effeithiol oherwydd os yw agoredrwydd a gonestrwydd yn ffactorau llwyddiant pwysig, yna mae cydweithio â phobl rydych yn ymddiried ynddynt yn hanfodol. Fodd bynnag, nid yw'r dull ad hoc hwn yn sicrhau y gall ysgolion adnabod y rhai sydd fwyaf tebygol o ddarparu cymorth priodol.

Atalfeydd a rhwystrau

- 42 Mae ysgolion llwyddiannus yn cael trafferth bodloni'r gorchmynion arnynt o ran amser. Er bod gan yr ysgolion hyn ymrwymiad cryf i ddibenion ar y cyd ac yn ei hystyried yn ddyletswydd arnynt i gynorthwyo ysgolion eraill, gall y pwysau ar eu staff a phryderon ynghylch yr amser a dreulir i ffwrdd o'r ystafell ddsbarth fod yn rhwystrau. Mae ysgolion y cysylltir â nhw'n rheolaidd i rannu eu harfer a'u harbenigedd eisiau bod yn gynorthwyol, ond gallant gael eu llesteirio gan y rhwystrau y mae ysgolion sy'n ceisio cymorth yn codi eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys:
- dealltwriaeth annigonol o'r hyn y mae angen ei wella a pham
 - anallu i ofyn y cwestiynau cywir
 - diffyg ymrwymiad uwch arweinwyr i gynorthwyo'r gwaith datblygu sydd ei angen i arwain at welliant parhaus
 - disgwyliadau afrealistig, gan gredu y bydd mewnfario arfer yn unig, heb baratoi'n ofalus na rhoi hyfforddiant digonol i'r staff, yn arwain at wella
- 43 Hefyd, efallai y bydd ysgolion sy'n ceisio cymorth yn cael trafferth dod o hyd i'r amser a'r adnoddau i fuddsoddi yn y math hwn o weithgarwch. Mae lleiafrif o'r ysgolion y mae angen eu gwella yn anfodlon rhyddhau staff oherwydd pryderon am yr effaith ar ddysgu disgyblion.
- 44 Mae bron pob ysgol yn nodi pryderon ynghylch costau fel rhwystr sylweddol. Mae gweithio effeithiol rhwng ysgolion yn mynnu buddsoddiad sylweddol o amser staff ar gyfer ymchwil a datblygu. Rhaid i'r amser hwn ddod o'r diwrnod ysgol yn bennaf. Mae costau athrawon llanw, pryderon ynghylch llwythi gwaith a phryderon ynghylch effaith negyddol bosibl ar ddisgyblion yn rhwystro tua hanner yr ysgolion rhag gweithio rhwng ysgolion, hyd yn oed os oes cyllid ar gael.

Atodiad: Cymorth cof i gynorthwyo cynllunio ac arfarnu cydweithio rhwng ysgolion

Mae hwn wedi ei seilio ar ddogfen gynllunio ac arfarnu Ysgol Uwchradd Elfed a'r arolwg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad thematig hwn.

Enw'r ysgol	Unigolyn cyswllt Rôl
<p>Ffocws: <i>Beth yw ffocws y gwaith rhwng ysgolion? Dylai hyn fod mor fanwl â phosibl.</i></p> <p><i>Enghraifft</i></p> <p>Mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 (TGAU), yn benodol graddau D i C, ond hefyd dilyniant i'r graddau uwch. Hoffwn wybod beth sydd wedi cyfrannu at berfformiad uchel cyson a pharhaus yr ysgol mewn TGAU. Yn benodol, hoffwn wybod mwy am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwricwlwm cyfnod allweddol 3 a sut mae'n paratoi disgyblion i symud ymlaen yn effeithiol i CA4 • Sut rydych yn gosod targedau (yng nghyfnod allweddol 4) ac yn olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau • Pa mor gynnar ydych chi'n dechrau'r cwrs TGAU? • Pa fanyleb / drefn asesu ydych chi'n ei dilyn? Ceisiadau cynnar? • Effaith polisiâu a gweithdrefnau ysgol-gyfan / adrannol, fel arsylwi gwersi / craffu ar waith / polisi marcio ac adborth ac ati 	
<p>Angen: <i>Dylai hyn amlinellu'r rhesymau pam rydych yn ceisio cymorth.</i></p> <p><i>Enghraifft</i></p> <p>Bu perfformiad mewn mathemateg islaw cyfartaledd ein teulu o ysgolion tebyg yn gyson. Bu yn yr hanner is o ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim am y tair blynedd diwethaf. O ganlyniad, mae perfformiad ar lefel 2 yn cynnwys Saesneg (neu Gymraeg) a mathemateg, ac yn y dangosydd pwnc craidd, islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg yn gyson, er gwaethaf perfformiad cryf mewn Saesneg a phynciau eraill. Un pryder penodol yw perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Nid yw hwn yn gwella ac nid yw'r disgyblion hyn yn cyflawni cystal â disgyblion eraill sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y teulu yn gyson.</p>	
<p>Amcanion strategol: <i>Cysylltwch y rhain â blaenoriaethau'r ysgol, blaenoriaethau lleol neu flaenoriaethau cenedlaethol.</i></p> <p><i>Enghraifft</i></p> <p>Codi cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4 ac yn benodol i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn unol â'r cynllun gwella ysgol a blaenoriaethau cenedlaethol.</p>	

Darpariaeth: *(I'w llenwi ar ôl y gwaith cymorth) Amlinellwch yma ba weithgareddau a gyflawnwyd a sut y darparwyd cymorth*

Arfarniad cychwynnol

Effeithiolrwydd: *Pa mor effeithiol oedd y cymorth rhwng ysgolion? Cynhwyswch arfarniad o'r gwaith cymorth yma. Enghraifft*

Rhoddyd dull clir, cydlynol a strategol o sicrhau deilliannau i ddisgyblion yn ystod yr ymweliad.

Roedd effaith gronnu gyfunol arfer syml ond effeithiol yn arbennig o drawiadol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- datblygu medrau yng nghyfnod allweddol 3, wedi'i ategu gan brofion diagnostig a darpariaeth dargedig
- cynllunio'r amodau gorau posibl ar gyfer llwyddiant yn y pynciau craidd (cynllun y cwricwlwm / amser cyswllt / strwythur y cwrs / polisi ceisiadau cynnar)
- gwaith tîm effeithiol rhwng cyfarwyddwyr dysgu (mathemateg a chynnydd Blwyddyn 11) i bennu dull cydgysylltiedig o osod targedau, olrhain a darpariaeth

Cynllun gweithredu – crynodeb byr o'r hyn rydych yn bwriadu ei wneud, byddai'r manylion yn y cynllun datblygu ysgol neu'r cynllun datblygu adrannol

Asesiad o'r effaith: *Byddai angen ychwanegu hwn yn ddiweddarach wedi i unrhyw newidiadau a wnaed gael eu rhoi ar waith a bod data ar gael i ategu'r arfarniad.*

Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â 9 o ddarparwyr. Dewiswyd y rhain oherwydd y maent yn cymryd rhan yn y mathau penodol o gymorth rhwng ysgolion a ystyriwyd yn yr arolwg hwn. Yn yr ymweliadau hyn, roedd gweithgareddau'n cynnwys

- trafodaethau ag uwch arweinwyr
- trafodaethau ag athrawon dosbarth
- cyfarfodydd â staff awdurdodau lleol
- trafodaethau â llywodraethwyr
- cyfarfodydd â phartneriaid sy'n cyfrannu at y gwaith rhwng ysgolion

Rhestr o'r darparwyr yr ymwelwyd â nhw

- Teulu o bedair ysgol gynradd ar Ynys Môn
- Ffederasiwn cynradd Ysgol Ieuan Gwynedd ac Ysgol Gynradd Brithdir yng Ngwynedd
- Ffederasiwn cynradd Ysgol Tregarth ac Ysgol Bodfeurig yng Ngwynedd
- Ysgol Arbennig Crownbridge yn Nhorfaen
- Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf yng Nghastell-nedd Port Talbot
- Ysgol Dyffryn Conwy yng Nghonwy
- Ysgol Gymunedol Cwmtawe yng Nghastell-nedd Port Talbot
- Ffederasiwn Michaelston a Glyn Derw yng Nghaerdydd
- Ffederasiwn cynradd yng Ngheredigion

Cafwyd tystiolaeth ychwanegol o:

- ddeilliannau arolygiadau
- ymatebion i holiaduron a anfonwyd at sampl o ysgolion ym mhob teulu o ysgolion uwchradd

Rhestr gyfeiriadau

Estyn (2013a) *Teithiau gwella deuddeg ysgol uwchradd*, Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/297133.2/Teithiau%20gwella%20deuddeg%20ysgol%20uwchradd%20-%20Rhagfyr%202013/?navmap=30,163>, [Cyrchwyd 27 Ebrill 2015].

Estyn (2013b) *Targedau uchelgeisiol yn gwella perfformiad disgyblion*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/271471.2/Targedau%20uchelgeisiol%20yn%20gwella%20perfformiad%20disgyblion/?navmap=33,53,159>, [Cyrchwyd 27 Ebrill 2015].

Estyn (2014) *Adroddiad arolygu Ysgol Ddydd Arbennig Crownbridge 2014*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/darparwr/6787012/> [Cyrchwyd 27 Ebrill 2015].

Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 OS 1132, (Cy.111). Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1132/pdfs/wsi_20141132_mi.pdf [Cyrchwyd 27 Ebrill 2015].

Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2014) *Mid-point Evaluation of the Lead and Emerging Practitioner School Tranche 1 Pathfinder Project.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.nfer.ac.uk/publications/WGIE01/WGIE01.pdf> [Cyrchwyd 27 Ebrill 2015]. (Saesneg yn unig)

OECD (2014) *Improving Schools in Wales: An OECD perspective.* Paris: OECD. [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.oecd.org/education/Improving-schools-in-Wales.pdf> [Cyrchwyd 27 Ebrill 2015]. (Saesneg yn unig)

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2013) *Prosiect ar gyfer Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol.* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/raisingstandards/practitioner/schools/?skip=1&lang=cy> [Cyrchwyd 27 Ebrill 2015].

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2014a) *Her Ysgolion Cymru: cyflwyniad ar gyfer ysgolion Llwybrau Llwyddiant.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140620-schools-challenge-cymru-introduction-brochure-cy.pdf> [Cyrchwyd 27 Ebrill 2015].

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2014b) *Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140217-national-model-for-regional-working-cy.pdf> [Cyrchwyd 27 Ebrill 2015].

Llywodraeth Cymru, Yr Adran Addysg a Sgiliau (2014c) *Cymwys am Oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/141001-qualified-for-life-cy.pdf> [Cyrchwyd 27 Ebrill 2015].

Geirfa/cyfeiriadau

Niferoedd a chyfrannau

bron bob un = gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf = 90% neu fwy
llawer = 70% neu fwy
mwyafrif = dros 60%
hanner = 50%
tua hanner = yn agos at 50%
lleiafrif = o dan 40%
ychydig = o dan 20%
ychydig iawn = llai na 10%

Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Sue Halliwell	Awdur yr adroddiad cylch gwaith
Catherine Evans	Aelod tîm
Vaughan Williams	Aelod tîm
Hugh Davies	Aelod tîm
Anwen Griffith	Aelod tîm
Beverley Cole	Aelod tîm